Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW 2016-20

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Adroddiad ymgynghoriad

Dolen gyswllt i rif yr Asesiad o'r Effaith ar

Gydraddoldeb: CWD/EIA00034/2015.

Fformatau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ffurfiau safonol Microsoft Word a PDF mewn ffont Arial maint 12.

Bydd fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn sain a fersiwn electronig a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Yr Adran Lles a Datblygu Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LG

Rhif Ffôn: 01978 298736

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk

Gwybodaeth Bellach

Am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn neu ddrafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW 2016-20 cysylltwch â:

Gill Grainger
Rheolwr Amrywiaeth Cymunedol
gillian.grainger@wrexham.gov.uk or 01978 298736

Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	4
• Cefndir	4
• Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus	4
• Egwyddorion yr ymgynghoriad	5
2. Ymgynghori	5
• Cyflwyniad	5
• Y Broses Ymgynghori	6
• A m s e r l e n	6
• Cynllun hyrwyddo	7
• Dulliau Ymgynghori	8
• Ffynonellau data a gwybodaeth	12
3. Negeseuon o'r ymgynghoriad	14
• Cam 1 – Amcanion Cydraddoldeb Strategol	14
• Cam 2 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft	18
4. Casgliad	19
Atodiad 1 Egwyddorion Gunning	20
Atodiad 2 Monitro Cydraddoleb	21
Rhestr termau	30

1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) er mwyn nodi anghysondebau posib allai godi o ddatblygu a chyflawni Cynllun y Cyngor. Defnyddiwyd y wybodaeth a ganfuwyd yn y broses hon er mwyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-20. Dolen gyswllt.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am sut cynhaliwyd yr ymgynghoriad fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn darparu tystiolaeth ar sut rydym yn cwrdd gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector gyhoeddus.

Mae'r ddogfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael:
http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw: CWD/EIA00034/2015.

Cefndir

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ddeddfwriaethau i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Rydym yn defnyddio'r fframwaith hwn er mwyn ystyried sut rydym yn cyflenwi Cynllun y Cyngor, y posibilrwydd am unrhyw fath o wahaniaethu a sut gallwn atal neu leihau unrhyw wahaniaethu posib.

Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus

Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, i drechu rhagfarn, hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da. Yn benodol, mae'n rhaid i ni:

Rhaid i gyrff cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r angen i:	**Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:**
Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.	Cael gwared neu leihau gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion a ddiogelir.
Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt.	Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a ddiogelir lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt.	Cymryd camau i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus wrth gymysgu a rhyngweithio ag eraill.

Mae gan Gynghorau Cymru hefyd ddyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 gan gynnwys asesu effaith polisïau a chynlluniau perthnasol – yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn sefydlu sail gadarn ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol rydym wedi:

- Defnyddio Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Blynyddol [2011 – 2015] er mwyn sefydlu ba gynnydd sydd wedi ei wneud;
- Ymgynghori mor eang â phosib yn Wrecsam [y cyhoedd, cydweithwyr, pobl sydd â nodweddion a ddiogelir];
- Ymgynghori ar sail ranbarthol; a
- Defnyddio data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Nodir manylion am y cynnydd rydym wedi ei wneud a data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn Nogfen Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20. Gellir dod o hyd iddo ar y dolen ganlynol o dan y pennawd, Pwyllgor Craffu – Adroddiadau Drafft
http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm

Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

- Gyda phwy yr ydym wedi ymgynghori;
- Sut rydym wedi ymgynghori; ac
- Adborth yr ymgynghoriad.

Egwyddorion yr ymgynghoriad:

Rhan allweddol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw ymgynghori gyda phobl a allai gael eu heffeithio gan y Strategaeth ac yn benodol pobl sydd â nodweddion a ddiogelir.

Mae cyfraith achosion wedi darparu set o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r gofynion cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Gelwir y rhain yn Egwyddorion Gunning:

1. Rhaid i'r ymgynghori ddigwydd pan fydd y cynnig yn dal yn y camau ffurfiannol.
2. Rhaid rhoi rhesymau digonol ar gyfer y cynnig er mwyn galluogi ymateb ac ystyriaeth ddeallus.
3. Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb.
4. Rhaid cymryd y wybodaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad i ystyriaeth yn gydwybodol.

Mae manylion pellach gofynion Egwyddorion Gunning yn Atodiad 1.

2. Ymgynghoriad

Cyflwyniad:

Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol [2012-16] yn nodi 6 maes posib lle gallai gwahaniaethu ddigwydd. Felly mae'n Amcanion Cydraddoldeb Strategaeth dros y 4 mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar y meysydd hyn:

- Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog;
- Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd;

- Lleihau anghydraddoldeb mewn addysg i wneud y gorau o botensial yr unigolyn
- Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol;
- Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais; a
- Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Y Broses Ymgynghori

Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd penderfynu 2 beth:

1. A yw'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol blaenorol yn dal i fod yn berthnasol? Oes angen eu diwygio neu a ddylid ychwanegu unrhyw beth?

2. Beth yw'r blaenoriaethau gweithredu o dan bob Amcan Cydraddoldeb Strategol ar gyfer pobl sydd â nodweddion a ddiogelir?

Cynhaliwyd asesiad sgrinio cychwynnol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda'r Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cymorth i swyddogion sy'n gwneud Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac yn annog cysylltiadau agosach rhwng adrannau ac unigolion a chymunedau sydd â nodweddion a ddiogelir. Cadarnhaodd y Grŵp:

- bod pob un o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn codi o Gynllun y Cyngor yn parhau'n berthnasol i'r bobl sy'n ymweld, yn byw, neu'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam; a
- bod angen ymgynghoriad cyhoeddus eang.

Datblygwyd cynllun ymgynghori a'i gyflawni mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam er mwyn:

- Lleihau'r baich ar gymunedau yr hoffem ymgynghori â hwy;
- Lleihau costau ac amser gweinyddu; a
- Derbyn adborth o'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i holl sefydliadau Bwrdd Gwasanaeth Lleol sy'n gweithio yn Wrecsam.

Amserlen:

Amserlen gyffredinol ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20:

Cam 1 – Ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol	
Mis	**Cam Gweithredu**
Ebrill 2015	Cytuno ar Gynllun Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Mai – Awst 2015	Ymgynghori ag adrannau'r Cyngor mewn perthynas â chynlluniau allweddol y Cyngor sy'n sail i Gynllun y Cyngor.
Mai – Awst 2015	Sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda'r Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb.
Medi - Hydref 2015	Ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Ymgynghori â chydweithwyr

Medi - Hydref 2015	Adolygu data, gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol ac adborth yr ymgynghoriad rhanbarthol.
Hydref - Tachwedd 2015	Cadarnhau Amcanion Cydraddoldeb Strategol a nodi camau gweithredu drafft ar gyfer pob amcan
Tachwedd/ Rhagfyr 2015	Rhannu adborth yr ymgynghoriad gydag adrannau er mwyn nodi camau gweithredu priodol
Rhagfyr 2015	Drafftio Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried
Cam 2 – Ymgynghoriad Dogfen Gynllunio Strategol Drafft	
Ionawr - Chwefror 2016	Ymgynghoriad cyhoeddus terfynol
Mawrth 2016	Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol.
Ebrill 2016	Cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cynllun hyrwyddo:

		Cam 1	Cam 2
Gweithgaredd hyrwyddo	**Grŵp Targed**	**Dyddiad 2015**	**Dyddiad 2016**
Datganiad i'r Wasg	Y cyhoedd	1/9 a 2/10	11/1 a 1/2
Poster dwyieithog yn Galw Wrecsam, Canolfannau Adnodd, Llyfrgelloedd	Y cyhoedd	24/8	12/1
Gwefan CBSW	Y cyhoedd	1/9	11/1
Mewnrwyd CBSW	Staff	1/9	11/1
Cyfryngau cymdeithasol CBSW – Twitter a Facebook	Y cyhoedd	1/9	11/1
Hysbysu Aelodau Etholedig	Aelodau Etholedig	1/9	11/1
Hysbysu'r Cynghorau Cymuned	Cynghorwyr Cymuned	1/9	11/1
Bwletin dydd Gwener	Staff	Medi a Hydref	Ionawr a Chwefror
Anfon dolen gyswllt yr ymgynghoriad ar e-bost at Sefydliadau Cymunedol	Pawb Pawb sy'n gweithio gyda neu sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion a ddiogelir	1/9	11/1 a 1/2
Cylchgrawn Cyswllt	Preswylwyr	Awst	
Siop Wybodaeth Pobl ifanc	Pobl ifanc		Ionawr
Cyfryngau	Pobl ifanc	Medi a Hydref	Ionawr a

cymdeithasol pobl ifanc – gwefan, Facebook, Twitter			Chwefror
Cymunedau'n Gyntaf	Preswylwyr	Medi a Hydref	Ionawr a Chwefror
Timau rheoli adrannol drwy swyddogion Grŵp Gwella Cydraddoldeb	Staff	1/9	11/1
		Medi a Hydref	11/1

Dulliau ymgynghori:

1. Electronig drwy blatfform Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam www.yourvoicewrexham.com

2. Wyneb yn Wyneb mewn:
    - Cyfarfodydd;
    - Gweithdai sy'n targedu nodweddion a ddiogelir penodol; a
    - Mynychu digwyddiadau perthnasol eraill.

3. Gweithgareddau ymgynghori wedi'i harwain gan sefydliadau partner yn Wrecsam; ac

4. Ymgynghori rhanbarthol gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir drwy Ddigwyddiad Ymgynghori Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru

Dulliau Cam 1 – Ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Grŵp Ymgynghorai	**Dull**	**Nifer o bobl yr ymgynghorwyd â hwy**	**Pwrpas yr ymgynghoriad**	**Nodiadau**
Grŵp Gwella Cydraddoldeb	Cyfarfod mewnol	12	Cytuno ar fodd o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	
Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb	Yn cynnwys yr holl nodweddion a ddiogelir	22	Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cynllun y Cyngor	Cwblhawyd dros nifer o gyfarfodydd
Swyddogion cyngor / arweinwyr strategol	Cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd unigol	Arweinwyr pob polisi a gwasanaeth allweddol	Adnabod pryderon cydraddoldeb allweddol o safbwynt strategaethau allweddol sy'n sail i Gynllun y Cyngor	• Cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd unigol • Mynychu cyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol • Mynychu cyfarfodydd cydraddoldeb adrannol
Aelod Arweiniol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Cyfarfod unigol	1	Cytuno ar fodd cyffredinol o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Yn parhau
Cyhoeddus	Eich Llais Wrecsam – gwefan ymgynghoriad Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam	129 unigolyn 8 ymateb sefydliadol [Ymatebion a nodwyd – yn cynrychioli 3000 o bobl, ac ar ran 99 o bobl]	Adnabod anghysondebau allweddol yn Wrecsam	Gwefan ddwyieithog ar y we

Pobl sydd â nodweddion a ddiogelir Pobl â nodweddion gwarchodedi	Gweithdai targed a chyfarfodydd	Ffigyrau isod yn cynnwys ymatebion ar-lein ac wyneb yn wyneb	Adnabod anghysondebau allweddol yn Wrecsam a ddioddefir gan bobl sydd â nodweddion a ddiogelir	Ymgynghori wyneb yn wyneb
	Oedran	181		Mynychwyr cynhadledd Heneiddio'n Dda yng Nghymru Tîm Datblygu Chwarae Siop Wybodaeth Pobl Ifanc Senedd Grŵp Gweithredol
	Anabledd	141		Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru Lleisiau Pobl a Nam ar eu Clyw Wrecsam Cynllun Eiriolaeth Annibynnol Dewis Lansiad Siop Symudedd
	Rhyw	84		Grŵp Cameo
	Priodas a Phartneriaethau Sifil	90		Swyddfa Gofrestru Swyddfa Gofrestru
	Beichiogrwydd a Mamolaeth	86		Ymwelydd Iechyd Bydwragedd

	Hil Ac Ethnigrwydd [a Chenedligrwydd]	131		BAWSO: • Pwylaidd • Portiwgeaidd • Philipinaidd • Affricanaidd • Pacistanaidd • Tai • Indiaidd • Tseiniaidd Cymdeithas Portiwgeaidd
	Crefydd a Chredoau	84		Fforwm Rhyng-grefyddol Tangnefedd
	Ad-drefnu Rhyw	91		Prosiect Cefnogi Ieuenctid Trawsrywiol Wrecsam
	Tuedd Rhywiol	84		Partneriaid Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru
	Tlodi	82		Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb
	Yr Iaith Gymraeg	42		Menter Iaith Maelor
	Gofalwyr	88		Gofalwyr yn mynychu ail-lansiad Siop Symudedd Fforwm Gofalwyr
Pobl sydd â nodweddion a ddiogelir	Pawb	43	Digwyddiad ymgysylltu Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Preifat Gogledd Cymru	Sefydliadau ac unigolion o Ogledd Cymru

Dulliau Cam 2 – Ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft

Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd i wahodd sylwadau ac adborth ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol drafft (2016-2020) a luniwyd wedi cam 1 o'r ymgynghoriad.

Gofynnwyd i'r holl grwpiau a gafodd ymgynghoriad 'wyneb i wyneb' os hoffent gyfle pellach yn ystod cam 2 o'r ymgynghoriad. Dim ond un grŵp, 'Wrexham VI Voices' a dderbyniodd y gwahoddiad.

	Nifer o Ymatebwyr	**Dull Ymgynghori**
Unigolion	45	Trwy www.yourvoicewrexham.net
Sefydliad	5	Trwy www.yourvoicewrexham.net a Gweithdy 'Wrexham VI Voices'

Ymgynghori gydag Aelodau Etholedig:

- Ymgysylltu gydag Aelod Arweiniol;
- Gwahoddiad i gwblhau holiadur ar-lein;
- Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau [Rhagfyr 2015 a Chwefror 2016]; a'r
- Bwrdd Gweithredol [Mawrth 2016].

Ffynonellau data a gwybodaeth:

Teitl data	**Ffynhonnell**
Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol CBSW 2011 - 2015	Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Staff Blynyddol CBSW 2011 - 2014	Adran Adnoddau Dynol
Cynllun Cyngor CBSW	CBSW
Data perfformiad a gwybodaeth Fonitro	Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau CBSW
Gwybodaeth Gwasanaeth cwsmeriaid e.e. • Ymgynghori â chwsmeriaid a gwybodaeth ymgysylltu • Data defnyddiwr gwasanaeth	Adrannau CBSW
Taflenni data Dyma Wrecsam	Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Cefndir a dogfen Ymchwil ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Rhanbarthol	Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru
Asesiad Anghenion Strategol	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam - Bwrdd Datblygu Partneriaeth 3
Strategaeth Trechu Tlodi Wrecsam 2015-18	Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam
Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol 2014-16	Llywodraeth Cymru
Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb yng Nghymru 2014	Llywodraeth Cymru
Ystadegau Cryno Ardaloedd Lleol - Wrecsam	Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid 2015	Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru
O'r Golwg yng Ngolwg Pawb. Ymholiad ynghylch aflonyddu ar sail anabledd	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Adolygiad o PSED yng Nghymru 2014	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Pa mor deg yw Cymru 2011	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Pa mor deg yw Prydain 2010	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
A yw Prydain yn Decach 2015 [diweddariad]	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	Llywodraeth Cymru
Adroddiad Gwrth-fwlio 2015	Estyn
Cynllun gweithredu Uwch na Geiriau	CBSW

3. Negeseuon yr ymgynghoriad:

Negeseuon allweddol o Gam 1 – Ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol:

Lleihau anghydraddoldeb mewn Cyflogaeth a Chyflog

1. Hyrwyddo delweddau cadarnhaol o amrywiaeth yn y gweithle
2. Cynyddu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddi hygyrch i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir
3. Adolygu trafnidiaeth - er mwyn cwrdd gofynion patrymau cyflogaeth
4. Hyrwyddo gweithio'n hyblyg gan gynnwys o fewn y sector preifat
5. Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith cyflogaeth ansicr ar fynediad i wasanaethau, llety ayb
6. Hyrwyddo cyflog cyfartal
7. Hyrwyddo hawliau cyflogaeth e.e. beichiogrwydd a mamolaeth
8. Codi ymwybyddiaeth o wahaniaethau sefydliadol a'i effaith ar gyfleoedd cyflogaeth
9. Nid yw ceisiadau digidol am swyddi yn hygyrch
10. Cyllid i weithwyr cefnogi
11. Gwella hygyrchedd y Ganolfan Waith
12. Hyrwyddo'r Gronfa Mynediad i Waith a chwilio am gyllid pellach

Lleihau anghydraddoldeb mewn Addysg

1. Lleihau bylchau cyrhaeddiad
2. Cynyddu cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc
3. Trechu bwlio mewn ysgolion
4. Cynyddu'r nifer o lywodraethwyr ysgol sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
5. Cynyddu nifer y cadeiriau olwyn addas mewn ysgolion
6. Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc sydd â nodweddion a ddiogelir
7. Cynyddu dealltwriaeth ysgolion o faterion yn gysylltiedig â hygyrchedd

8. Addysg a hyfforddiant i bobl sydd ag Anableddau Dysgu i fod yn fwy na sgiliau sylfaenol yn unig

9. Cynyddu mynediad i ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill

10. Hyfforddiant cymunedol er mwyn cynyddu sgiliau ar gyfer cyfleoedd newydd am swyddi

Lleihau anghydraddoldeb mewn Iechyd

1. Gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl [yn enwedig pobl Trawsrywiol, Dioddefwyr Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Dioddefwyr a Chyflawnwyr, Cymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn a Theithwyr]

2. Cynyddu mynediad i gefnogaeth cymorth cyntaf iechyd meddwl i staff y cyngor

3. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd

4. Adolygu a mynd i'r afael ag effeithiau cynyddol toriadau mewn cyllidebau iechyd a chyngor

Lleihau anghydraddoldeb mewn Diogelwch Personol

1. Trechu troseddau casineb a bwlio mewn ysgolion, y gweithle ac mewn cymunedau a gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir, yn enwedig Gofalwyr Ifanc a phob sydd ag anabledd

2. Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Ffordd, Diogelwch Tân gan gynnwys gweithdrefnau gwacau tân ar gyfer y cartref ac adeiladau cyhoeddus.

3. Hyrwyddo buddion amrywiaeth a chyfraniadau pobl sydd â nodweddion a ddiogelir

4. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion Trawsrywiol

5. Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol mewn cysylltiad ag amrywiaeth grefyddol

6. Datblygu polisi celfi stryd

7. Cynllun Lle Diogel [Anableddau Dysgu a Dementia]

Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais

1. Cynyddu gwasanaethau eiriolaeth, gwybodaeth a chynghori [yn enwedig o safbwynt oed, Gofalwyr a phobl anabl]

2. Canllawiau gwell i weithwyr proffesiynol ar sut i ymgysylltu gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir [yn enwedig pobl ifanc, gofalwyr, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig / cenedligrwydd, pobl sydd ag anabledd a Sipsiwn a Theithwyr]

3. Cynyddu amrywiaeth ar baneli gwneud penderfyniadau

4. Cynnwys cymunedau/pobl mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Lleihau anghydraddoldebau wrth gael Mynediad at Wybodaeth, Gwasanaethau, Adeiladau a'r Amgylchedd

1. Gwybodaeth:
   - Mynediad at Wybodaeth a gwasanaethau mewn amrywiaeth o fformatau, nid digidol yn unig
   - Darparu gwybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt [drwy bwyntiau cymunedol allweddol]
   - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
   - Gwneud yr iaith yn ddi jargon
   - Cynyddu cefnogaeth i bob cymuned fynd yn ddigidol
   - Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu gwybodaeth sefydliadau cefnogaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth
   - Hyrwyddo'r Mynediad Pwynt Sengl - er mwyn mynd i'r afael â phroblemau wrth gael mynediad at y gwasanaethau cymdeithasol
   - Ardaloedd gwledig ac ardaloedd tu allan i ardaloedd amddifadedd [e.e. Cymunedau'n Gyntaf] e.e. mannau o amddifadedd

2. Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws grwpiau staff
   - Credoau Crefyddol
   - Ymwybyddiaeth Trawsrywiol
   - Gofalwyr
   - Gofalwyr ifanc
   - Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol
   - Anabledd
   - Mudo

3. Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:
   - Ymgysylltu gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir [a phlant a phobl ifanc]
   - Adnabod a mynd i'r afael ag effeithiau cynyddol

4. Materion mynediad:

   Adeiladau:

   - Cynyddu darpariaeth ar gyfer mamau sy'n bwydo ar y fron
   - Gwella mynediad i adeiladau cyhoeddus ar gyfer pramiau/bygis dwbl
   - Gwella mynediad toiledau yng nghanol y dref
   - Toiled hygyrch yn Galw Wrecsam

- Adolygu arwyddion cyhoeddus

Gwybodaeth:

- Gwella mynediad i a defnydd o gyfieithwyr
- Cynyddu mynediad i wasanaethau yn Gymraeg
- Gwybodaeth yn Iaith Arwyddion Prydain ar wefan y Cyngor
- Adolygu'r wefan gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir

Cludiant:

- Gwella cludiant mewn ardaloedd gwledig – yn gyffredinol ac mewn yn gysylltiedig â phatrymau gwaith
- Adolygu opsiynau cludiant i bobl sydd ag anabledd
- Gwella mynediad i'r amserlen bws [drwy Galw Wrecsam?]
- Ymwybyddiaeth amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg gyrwyr tacsis yn enwedig ymwybyddiaeth anabledd

Ymgysylltu

- Gwella ymgysylltiad gyda'r holl nodweddion a ddiogelir;
- Cynyddu ymwybyddiaeth amrywiaeth a chydraddoldeb ym mhob grŵp staff er mwyn galluogi ymgysylltu gwell

Negeseuon allweddol o Gam 2 - Dogfen Ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft:

- Mae angen cyllid i alluogi pobl ag anabledd i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli a chynyddu eu cyflogadwyedd.
- Mae angen gwaith pellach i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol ffydd a grwpiau di-ffydd.
- Dylid blaenoriaethu pobl ddiamddiffyn o fewn ailstrwythuro'r Cyngor.
- Dylai ceiswyr lloches a ffoaduriaid gael eu cefnogi yn Wrecsam.
- Cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl yn gadarnhaol; blaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a dynion.
- Sicrhau cefnogaeth iaith briodol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.
- Cynnwys materion Trawsrywiol yn yr amcan iechyd.
- Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan weithgar mewn bywyd cyhoeddus.
- Sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn yr holl amcanion cydraddoldeb.

4. Casgliad

Cadarnhaodd dadansoddiad o adborth yr ymgynghoriad y dylai'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol presennol wrth roi ar waith neu ddatblygu Cynllun y Cyngor a'r Strategaethau a'r Cynllun sy'n sail iddo:

1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog;
2. Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd;
3. Lleihau anghydraddoldebau mewn addysg i wneud y gorau o botensial yr unigolyn;
4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol;
5. Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais; a
6. Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Yn ogystal â hynny, dylai'r Cyngor ymateb i'r materion penodol a godwyd drwy'r ymgynghoriad drwy roi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar waith.

Nodyn:

Ni ellir ymateb i bob un o negeseuon yr ymgynghoriad o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Fodd bynnag, mae Cyngor Wrecsam yn parhau'n ymrwymedig i flaenoriaethu pobl ddiamddiffyn a cheisio sicrhau bod y manteision o'r hyn a wnawn ar gael yn gyfartal i bawb sy'n byw, gweithio, yn ymweld neu'n buddsoddi yn y Fwrdeistref Sirol.

Atodiad

1. Gofynion Egwyddorion Gunning

1. Rhaid i'r ymgynghori ddigwydd pan fydd y cynnig yn dal yn y camau ffurfiannol.

- Dylai Awdurdodau ymgynghori gyda *'meddwl agored'*.
- *'Nid yw meddwl agored yn golygu meddwl gwag',* felly mae'n dderbyniol ymgynghori ar gynigion y mae'r awdurdod **o blaid** eu cymryd**;** fodd bynnag rhaid bod gwir bosibilrwydd y gallai'r farn a nodir yn yr ymgynghoriad olygu gorfod dileu neu ddiwygio'r cynnig.

2. Rhaid rhoi rhesymau digonol ar gyfer y cynnig er mwyn galluogi ymateb ac ystyriaeth ddeallus.

- Dylai gwybodaeth fod yn fanwl ac yn gynhwysfawr, fodd bynnag ni ddylai fod yn annealladwy
- Ni ddylai gwybodaeth fod yn anghywir neu'n gamarweiniol
- Dylai sail y cynnig fod yn glir, yn ogystal â'r ffactorau hynny a fydd yn y pen draw yn gyrru'r penderfyniad
- Dylid cymryd gofal ychwanegol pan fydd pwnc ymgynghoriad yn arbennig o fanwl neu dechnegol, neu y tu hwnt i ddealltwriaeth yr ymgynghorai
- Dylid cyhoeddi gwybodaeth mewn modd sy'n ddealladwy

3. Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb.

- Dim gofyniad amser cyfreithiol penodol
- Pan fydd cynsail wedi ei osod, dylid cadw at hwn neu gallai'r awdurdod fod yn *'torri disgwyliad cyfreithlon'*
- Dylai'r cyfnod o amser fod yn ddigon i bobl *ystyried cynigion* o ddifrif a *ffurfio ymatebion manwl*
- Gallai cymhlethdod a manylder o fewn ymgynghoriad olygu bod angen cyfnod ymgynghori hirach
- Mae *amseru* yn bwysig – ni ddylai gael ei gynnal dros gyfnod pan fyddech yn rhesymol yn disgwyl ymateb is (e.e. Y Nadolig, y gwyliau haf)

4. Rhaid cymryd y wybodaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad i ystyriaeth yn gydwybodol

- Dylid adnabod prosesau ac amser priodol er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu **hadolygu'n drwyadl a'u cymryd i ystyriaeth**
- Ni fydd cymryd barn i ystyriaeth bob amser yn golygu newid cynigion yn unol â barn y cyhoedd – ond lle nad yw hyn yn bosib, dylai bod eglurhad pam nad yw hyn yn bosib
- Heb arddangos sut mae canlyniadau ymgynghoriad yn cael eu hystyried, gellid cyhuddo awdurdodau o fod 'wedi gwneud eu penderfyniad yn barod'.
- Pan fydd gwneuthurwyr penderfyniadau yn adolygu crynodebau o ymatebion i'r ymgynghoriad, dylai'r crynodebau hyn fod yn *gynhwysfawr* ac yn *gywir*. Dylai canlyniadau llawn fod ar gael er mwyn i wneuthurwyr penderfyniadau eu hadolygu.

Monitro Cydraddoldeb:

Oed -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
0-24 oed	12 (15.38%)	3 (11.54%)
25-44 oed	22 (28.21%)	9 (34.62%)
45-64 oed	31 (39.74)	10 (38.46%)
65-74 oed	5 (6.41%)	2 (7.69%)
75+ oed	6 (7.69%)	2 (7.69%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	2 (2.56%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**26**

Rhyw -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
Gwryw	32 (41.03%)	9 (34.62%)
Benyw	42 (53.85%)	17 (65.38%)
Arall		
Mae'n well gen i beidio â dweud	4 (5.13%)	

Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**26**

Anabledd -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Oes	19 (24.36%)	7 (25.93%)
Nac Oes	57 (73.08%)	18 (66.67%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	2 (2.56%)	2 (7.41%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**27**

Cenedligrwydd -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Cymro/Cymraes	35 (45.45%)	15 (57.69%)
Sais/Saesnes	11 (14.29)	3 (11.54%)
Albanwr/Albanes		
Gwyddelig Gogledd Iwerddon	2 (2.26)	
Prydeinig	30 (38.96)	6 (23.08%)

Arall	4 (5.19%) Du Affricanaidd Ffrangeg Irac Portiwgaleg	2 (7.69%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	3 (3.9%)	1 (3.85%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**85**	**27**

Grŵp Ethnig -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Gwyn	67 (85.9%)	22 (81.48%)
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	1 (1.28%)	
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	2 (2.56%)	1 (3.7%)
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	1 (1.28%)	
Grŵp Ethnig Arall	2 (2.56%)	2 (7.41%)
Gwell gen i beidio ag ateb	5 (6.41%)	2 (7.41%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**27**

Crefydd -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
Cristnogaeth (pob enwad)	35 (45.45%)	13 (50%)
Bwdhaeth		
Hindw		
Iddewiaeth		
Mwslimaidd	3 (3.9%)	2 (7.69%)
Sikh		
Arall	5 (6.49%)	
Dim Crefydd/ffydd	26 (33.77)	10 (38.46%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	8 (10.39%)	1 (3.85%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**77**	**26**

Rhyw ar Enedigaeth -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
Gwryw	31 39.74%)	10 (38.46%)

Benyw	42 (53.85%)	16 (61.54%)
Rhyngrywiol		
Mae'n well gen i beidio â dweud	5 (6.41%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**26**

Statws Priodasol -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Oes	32 (41.03%)	6 (26.09%)
Nac Oes	40 (51.28%)	17 (73.91%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	6 (7.69%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**23**

Beichiogrwydd -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Ydw	3 (3.85%)	1 (3.85%)
Nac Ydw	72 (92.31%)	25 (96.15%)

Mae'n well gen i beidio â dweud	3 (3.85%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**26**

Cyfeiriadedd Rhywiol -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Heterorywiol/Strêt	61 (78.21%)	25 (84%)
Lesbiad	3 (3.85%)	
Hoyw	6 (7.61%)	1 (4%)
Deurywiol	3 (3.85%)	2 (8%)
Arall		
Mae'n well gen i beidio â dweud	5 (6.42%)	1 (4%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**29**

Gofalwr -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Oes	28 (35.9%)	8 (33.33%)

Nac Oes	46 (58.97%)	16 (66.67%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	4 (5.13%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**24**

Iaith -

Ymateb	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol**	**Nifer / Canran yr Ymatebwyr** **Cam 2 – Dogfen CCS Drafft**
Saesneg	63 (87.5%)	20 (83.33%)
Cymraeg	3 (4.17%)	2 (8.33%)
Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain)	6 (8.33%) Arabeg BSL Ffrangeg Portiwgaleg	2(8.33%) Pashto Pwnjabi
Mae'n well gen i beidio â dweud		
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**72**	**24**

Yr iaith Gymraeg -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
Dim o gwbl/mynediad	31 (39.74%)	10 (40%)
Ychydig/sylfaen	24 (30.77%)	9 (36%)
Rhywfaint/canolradd	8 (10.26%)	3 (12%)
Cymedrol/uwch	3 (3.85%)	1 (4%)
Yn gwbl fedrus	6 (7.69%)	2 (8%)
Mae'n well gen i beidio â dweud	6 (7.69%)	
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**78**	**25**

Statws Cyflogaeth -

Ymateb	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 1 - Amcanion Cydraddoldeb Strategol	Nifer / Canran yr Ymatebwyr Cam 2 – Dogfen CCS Drafft
Gweithio Llawn Amser	37 (48.05%)	12 (48%)
Cyflogedig Rhan Amser	10 (12.99%)	3 (12%)
Di-waith	2 (2.6%)	
Myfyriwr	8 (10.39%)	2 (8%)
Salwch/anabledd parhaol	4 (5.19%)	2 (8%)

Hunangyflogedig	2 (2.6%)	1 (4%)
Wedi ymddeol	9 (11.69%)	4 (16%)
Edrych ar ôl y cartref		
Mae'n well gen i beidio â dweud	5 (6.49%)	1 (4%)
Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr	**77**	**25**

Rhestr termau

BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig,
BSL	Iaith Arwyddion Prydain,
DA+SV	Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
HC	Trosedd Casineb
AoEaG	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
ESOL	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
G+T	Meddyg Teulu Sipsiwn a Theithwyr
GP	Meddyg Teulu
JC+	Y Ganolfan Waith
LD	Anableddau Dysgu
LGB	Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol
NEET	Heb fod mewn addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
PSED	Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus
SEP	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
SPOA	Pwynt Mynediad Sengl
SSD	Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
CBSW	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam